# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 2 Mai 2017

Amser y cyfarfod: 13.30

# 65(v4)

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol: Adroddiad Tueddiadau Tebygol y Dyfodol gan Lywodraeth Cymru

(45 munud)

## 4 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith: Gêm Derfynol Cynghrair y Pencampwyr

(45 munud)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## 5 Cynnig i amrywio trefn y gwelliannau ar gyfer Cyfnod 3 Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)

(5 munud)

**NDM6293** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.36:

Yn cytuno i waredu'r adrannau a'r atodlenni i **Fil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)** yng **Nghyfnod 3** yn y drefn ganlynol:

(a) adrannau 3 – 26

(b) adran 2

(c) adrannau 27 – 52

(d) adrannau 54 – 91

(e) adran 53

(f) adrannau 92 – 124

(g) Atodlenni 1 – 4

(h) adran 1

(i)Teitl Hir

## 6 Dadl: Gwasanaethau diabetes yng Nghymru

(60 munud)

**NDM6292** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi cyhoeddi'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Diabetes wedi'i ddiweddaru a'r meysydd blaenoriaeth a amlinellwyd yn yr adroddiad blynyddol diweddar i:

a. wella safon gofal diabetes ym mhob rhan o'r system iechyd a lleihau'r amrywiaeth o ran arferion gofal;

b. cefnogi'r sector gofal sylfaenol i reoli diabetes a chwblhau prosesau gofal allweddol;

c. galluogi pobl sydd â diabetes i reoli eu cyflwr yn well a lleihau'r perygl y byddant yn cael cymhlethdodau; a

d. defnyddio gwybodeg i sicrhau gwell integreiddio o ran gwasanaethau i bobl sydd â diabetes.

Y Cynllun Cyflawni ar gyfer Diabetes 2016-2020 a’r Adroddiad Blynyddol

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi mor bwysig yw rhaglenni addysg strwythuredig i helpu pobl i reoli diabetes, ac yn gresynu na all dros 50 y cant o blant a phobl ifanc cymwys gymryd rhan yn y rhaglenni hyn ar hyn o bryd.

**Gwelliant 2.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod mor bwysig yw mynd i'r afael â gordewdra o ran atal diabetes math 2.

## 7 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 3 Mai 2017